# Bwletin Menter Môn

mentermon.com
post@mentermon.com

Croeso i'n bwletin newydd. Dyma ble byddwn ni'n dod a'r newyddion diweddaraf i chi am Menter Môn, ein prosiectau a'n gwaith ar draws Ynys Môn, Gwynedd a thu hwnt. Cysylltwch gyda ni am ragor o wybodaeth amdanom ni neu unrhyw un o'n prosiectau. Mae ein gwaith yn syrthio i mewn i dair prif thema:

**Cymuned** **Economi** **Ynni**

## Creadigrwydd, menter a sgiliau yn Hwb Arloesi Porthmadog

Ydych chi wedi ymweld â'n swyddfa yng Ngwynedd? Mae Hwb Arloesi wedi'i leoli ym Mhorthmadog ac yn nyth o weithgarwch sy'n gweu, cyfuno ac egino syniadau - yn annog creadigrwydd a datblygu sgiliau newydd drwy greu cymuned fentrus ar y Stryd Fawr. Gallwch alw heibio i gael cymorth gan ein swyddogion, gweithio yn y gofod cydweithio, neu fwynhau beth sydd gan y gofod Ffiws i'w gynnig.




Gofod gwneud yw Ffiws, sef man cymunedol i arbrofi, gwneud, trwsio ac ailddefnyddio! Mae technoleg a pheiriannau amrywiol ar gael i ddatblygu'ch sgiliau, a dros yr wythnosau diwethaf, mae ein technegwyr profiadol wedi bod yn croesawu ysgolion lleol atynt i ddysgu sut i ddefnyddio peiriannau fel yr Argraffydd 3D a pheiriant brodwaith. Mae'n bleser gweld y disgyblion yn magu hyder a dysgu trwy fwynhau.

**Cliciwch yma i drefnu'ch ymweliad chi**

## Môn yn arwain y ffordd wrth fesur defnydd Iaith

Yn dilyn llwyddiant gwaith ymchwil y llynedd mae Tîm Iaith a Chymuned Menter Môn yn paratoi at grwydro'r strydoedd eto eleni.

Blwyddyn ddiwethaf, gydag arweiniad Soziolinguistika Klusterra aethpwyd ati i gerdded strydoedd Llangefni a Phorthaethwy yn mesur defnydd iaith gymdeithasol ar y strydoedd. Eleni bydd y criw yn treulio pythefnos yn fis Mawrth yn mesur data defnydd iaith yn Amlwch, Llanfairpwll a Chaergybi er mwyn ceisio sicrhau trosolwg ynys gyfan ar ddefnydd iaith gymdeithasol y boblogaeth.

**Darllenwch fwy yma.**



## Delicatessen Cymreig yn dathlu blwyddyn gyntaf lwyddiannus

Mae Y Fforc, Corcyn a'r Plu, siop delicatessen Gymreig arbenigol sydd wedi'i lleoli yn Nolgellau, yn dathlu blwyddyn gyntaf lwyddiannus mewn busnes. Yn eiddo ac yn cael ei reoli gan Andrew Peirson, agorodd y sefydliad ei ddrysau'r llynedd, gan ddod yn ffefryn lleol, gan wasanaethu fel siop goffi, deli, bistro, a bar trwyddedig.

Cafodd Andrew gefnogaeth gan yr Hwb Menter, gan eu darganfod trwy fwletin cymorth busnes Cyngor Gwynedd. Roedd y grant a dderbyniwyd drwy'r Hwb Menter yn allweddol i gefnogi ymdrechion marchnata'r busnes. Mae hefyd wedi derbyn cefnogaeth gan raglen ARFOR a Threfi SMART.

**Gwyliwch y fideo astudiaeth achos yma**.




## Mesur effaith cau porthladd Caergybi ar fasnach y Stryd Fawr

Ar y 6ed o Ragfyr 2024, achosodd Storm Darragh ddifrod difrifol i Borthladd Caergybi, gan arwain at gau'r safle. Arhosodd y Porthladd ar gau tan ganol Ionawr, pan ail-agorodd yn rhannol.

Er mwyn mesur effaith uniongyrchol cau'r porthladd ar y stryd fawr, adolygodd Trefi SMART Cymru wybodaeth BT Active Intelligence, a darganfyddwyd prif bethau yw ystyried a chamau nesaf:

- Roedd cau'r porthladd wedi amharu ar economi Caergybi yn sylweddol, yn enwedig y busnesau ar y stryd fawr.



- Heb ddata dibynadwy, byddai'n anodd meintioli maint llawn yr effeithiau.
- Rhaid i fusnesau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau barhau i fonitro tueddiadau ac addasu eu strategaethau i gefnogi adferiad economaidd.
- Gall gwybodaeth bellach – megis amser aros, dosbarthu incwm, a data dalgylch ymwelwyr – ddarparu eglurder ychwanegol ar sut mae ymddygiad cwsmeriaid yn esblygu yn y cyfnod ar ôl ail agor.

Bydd Trefi SMART Cymru yn parhau i gefnogi Fforwm Busnes Cybi wrth fonitro'r broses adfer yn ofalus, trwy ddarparu gwybodaeth sy'n cael ei yrru gan ddata i fusnesau i gynorthwyo eu gwytnwch a chynllunio i'r dyfodol.

**Cysylltwch â smarttowns@mentermon.com i gael ymgynghoriad am ddim a chymorth busnes ar y pwnc hwn.**

# Morlais yn ehangu i gefnogi twf gwyrdd



Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd cyfran ecwiti gwerth £8m yn y prosiect i sicrhau cynnydd. Bydd hyn yn lleihau costau wrth i ni gynhyrchu trydan glân o'r safle ar raddfa fasnachol. Bydd hefyd yn helpu i ariannu'r elfen Cydnerth, sy'n cryfhau'r cysylltiad â'r grid ym Mharc Cybi, ger tref Caergybi.

Cynllun llanw Morlais yw'r cyntaf o'i fath yn y byd, gyda chynlluniau i fod yn weithredol o 2026 ymlaen. Mae gan y safle ar Ynys Môn y potensial i gynhyrchu digon o drydan ar gyfer hyd at 180,000 o aelwydydd Cymreig, yn cynnig model 'plug & play' unigryw i ddatblygwyr dyfeisiau ynni llanw.

Dywedodd Dafydd Gruffydd, Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn: "Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog, sy'n cryfhau ein gallu ni i ddarparu ynni glân a swyddi lleol drwy brosiect Morlais. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi ein gweledigaeth i sicrhau bod gogledd Cymru ar flaen y gad ac yn parhau i arloesi ym maes ynni llanw, gan greu cyfleoedd twf a chydweithio ar draws y rhanbarth."

**Darllenwch yr erthygl lawn yma.**

## Pennod newydd i ynni llanw Môn trwy lansiad Cydnerth

Bydd gwaith yn dechrau ar safle yng Nghaergybi yn fuan i gryfhau'r cysylltiad grid ar gyfer ein cynllun ynni llanw, Morlais. Dyma garreg filltir bwysig arall i'r prosiect, fydd yn gweld trydan glân yn cael ei gynhyrchu oddi ar arfordir Ynys Môn. Bydd y gwaith ar brosiect Cydnerth ym Mharc Cybi yn sicrhau bod Morlais mewn sefyllfa gref i dyfu a chyrraedd ei gapasiti cynhyrchu o 240 MW. Bydd hefyd yn creu swyddi newydd a chyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi, gan gadarnhau safle gogledd Cymru ar flaen y sector ynni llanw.

Yn ystod y misoedd nesaf bydd clirio coed yn digwydd i osod ceblau tanddaearol i drosglwyddo trydan o is-orsaf Morlais ger Ynys Lawd i'r grid cenedlaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y tir yn cael ei adfer gyda thirlunio ac ailblannu coed.

John Idris Jones yw cadeirydd Menter Môn Morlais Cyf, dywedodd: "Rydyn ni'n croesawu'r cam yma, sy'n dod a ni'n agosach at sicrhau fod Ynys Môn yn gallu gwneud y mwyaf o'n hadnoddau llanw naturiol, gan drawsnewid yr ardal yn ganolbwynt ynni cynaliadwy. Mae'r gwaith ym Mharc Cybi i wella cysylltiad y grid yn rhan hanfodol o'r broses hon.



Mae'r cam nesaf hwn o'r prosiect yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd sy'n gyfrifol am y Cynllun Twf.

**Cadwch lygad allan am y newyddion diweddaraf am ein cynnydd a ffyrdd y gallwch gymryd rhan!**